# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Bob Clay | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliodd Cynghorwyr Llansamlet gymorthfeydd ar ddydd Gwener cyntaf a thrydydd pob mis rhwng 5.00pm a 6.00pm yng Nghanolfan Gymunedol Gellifedw, Lôn Gwesyn, ac ar ail a phedwerydd dydd Sadwrn y mis yng Nghanolfan Ieuenctid Stadwen, Heol Bethel rhwng 10.30am a 11.30am. Nid oedd angen apwyntiadau.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 1 | / | 9 | 11 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 8 | / | 9 | 89 | % |
| Y cyngor | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Safonau | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 37 | / | 55 | 67 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Cefais f'ethol mewn is-etholiad ym mis Gorffennaf 2013. Roeddwn yn aelod o gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Gellifedw ac Ysgol Uwchradd Gellifedw. Euthum i gyfarfodydd PACT ar gyfer ardal Gellifedw ac ardal y Trallwn. Hefyd, cymerais ran weithgar yng Nghymdeithas Gymunedol Gellifedw.

Cefais fy nghyfethol i'r Pwyllgor Craffu Arbennig a oedd yn adolygu'r broses ar gyfer darparu safle sipswn a theithwyr.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd ynglŷn â Datblygiad Emily Fields,
Cyfeillion Parc Heol Las, Dyfodol Gwasanaethau i Oedolion yn Abertawe, yr angen am dai fforddiadwy, ffyrdd heb eu mabwysiadu, annigonolrwydd ein gwasanaethau bws lleol a llawer o faterion eraill.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

12/02/2014 - Safonau (Pwyllgor)
13/11/2013 - Cydraddoldeb, Cynhwysiad Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg
18/10/2013 - Llawlyfr a Lwfansau Cynghorwyr
14/10/2013 - Cyn-benderfynu
07/08/2013 - Cyflwyniadau'r Prif Swyddog
02/08/2013 - Gwneud Penderfyniadau Da, Rhagfarn, Rhagbenderfynu a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
22/07/2013 - Rheolau'r Cyfansoddiad a Gweithdrefnau, Moesau ac Ymddygiad etc.
12/07/2013 - Swyddogaethau (Gweithredol) y cyngor/Cabinet
05/07/2013 - Côd Ymddygiad/Safonau (Cyflwyniad)
05/07/2013 - Diddordebau, Rhoddion a Lletygarwch

Rwyf wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i wella fy nealltwriaeth o gyllid awdurdod lleol er mwyn cynnig awgrymiadau cadarnhaol am ein proses gyllideb fwyfwy anodd.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae'r materion sydd heb eu datrys am safleoedd teithwyr yn mynd â llawer iawn o'm hamser.
Mae'r materion cysylltiedig, sef tagfeydd, parcio ceir a mesurau traffig yn cynnig her enfawr sy'n gwaethygu i bobl Abertawe a'u cynrychiolwyr etholedig.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30 Mehefin 2014 |